**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Moeseg a Safonau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **19 Mai 2021** |
| **Teitl:** | **Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2021/22** |
| **Diben yr adroddiad:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |

**Beth mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ei wneud?**
Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau fel a ganlyn:-

- hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr
- cynorthwyo'r Cynghorwyr i gadw at y Cod Ymddygiad
- cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad
- monitro gweithredu'r Cod Ymddygiad, a
- cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

Gall y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd roi gollyngiadau, sy'n caniatáu i Gynghorwyr sydd â buddiant mewn eitem benodol o fusnes y Cyngor barhau i gymryd rhan yn y busnes hwnnw.

Efallai y caiff adroddiadau ymchwilio y mae'r Ombwdsmon neu Swyddog Monitro'r Cyngor wedi'u paratoi ynghylch honiadau bod y Cod Ymddygiad wedi ei dorri eu cyfeirio at y Pwyllgor Moeseg a Safonau fel y gellir penderfynu yn eu cylch.

Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau hefyd y cyfrifoldebau uchod mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion.

Mae enghreifftiau o'r math o waith y mae Pwyllgor Moeseg a Safonau Ceredigion yn ei wneud yn cynnwys:

- cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu deunydd hyfforddi ar y Cod, gan gynnwys siart llif sy'n rhoi crynodeb o'r prif ddarpariaethau
- mynd i'r sesiynau hyfforddi ynghylch y Cod ar gyfer y Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned a chymryd rhan ynddynt
- mynd i gyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau i arsylwi ar y trafodion
- cyflwyno gweithdrefnau sy'n caniatáu i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd Pwyllgor i gyflwyno cais am ollyngiad yn bersonol
- rhoi cyngor i Gynghorwyr ynglŷn â cheisiadau am ollyngiad

**Y Flaenraglen Waith**
Cynigir y bydd Blaenraglen Waith yn dod yn eitem sefydlog ar bob un o agendâu'r Pwyllgor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor adolygu a diweddaru rhaglen waith y Pwyllgor.
Mae Blaenraglen Waith ddrafft ynghlwm i'w hystyried (Atodiad 1)

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | 1) Cytuno bod Blaenraglen Waith yn eitem sefydlog ar bob un o agendâu'r Pwyllgor, ac<br><br>2) ystyried, adolygu a diweddaru’r Flaenraglen Waith ddrafft gyfredol. **(Atodiad 1)** |

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Swydd:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 30 Ebrill 2021 |
| **Acronymau:** | |

Blaenraglen Waith Moeseg a Safonau 2021/22

| Dyddiad | Eitem |
|---|---|
| 19 Mai | Adran 62 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - Dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad<br><br>Trafod y dulliau o hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion gydag arweinwyr y pleidiau<br><br>Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol:<br>Y Cynghorydd Rees-Evans<br><br>Recriwtio Aelodau Annibynnol - diweddariad<br><br>Diweddariad ar faterion Cod Ymddygiad - Diweddariad ar erthyglau diweddar yn y wasg<br><br>Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus - Ymgynghoriad ar ddiwygio Canllawiau'r Cod Ymddygiad<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonau, 2020/21<br><br>Hyfforddiant<br><br>Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor |
| 9 Gorffennaf | Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol:<br><br>Rhesymau dros ganiatáu Gollyngiad – sail e) o Reoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001<br><br>Adolygiad o'r protocol Datrys Anghydfodau Lleol<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus |
| 11 Hydref | Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol:<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus |

| | |
|---|---|
| 17 Ionawr 2022 | Ystyried ceisiadau am ollyngiad gan y Cynghorwyr canlynol:<br><br>Diweddariad ynghylch materion Panel Dyfarnu Cymru<br><br>Diweddariad ar faterion yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus |